Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd
Penlan
Abertawe
SA5 7BU

10/03/2026

Annwyl arweinwyr a staff,

**Ymweliad Interim:** Chwefror 2026

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar 5 a 6 Chwefror 2026. Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- gynnal trafodaethau gydag arweinwyr a staff am eu gwaith hunanwerthuso a gwella, a'u gwaith i wella safonau llafar disgyblion
- siarad â disgyblion a gwrando ar eu hadborth am yr ysgol
- ymweld â sampl fach o wersi mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- graffu ar sampl o waith disgyblion
- graffu ar sampl o ddogfennaeth ysgol berthnasol
- ymgymryd â gweithgareddau craffu ar waith ac arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn

## Ffocws 1 - Pa mor effeithiol yw'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant?

Yn ystod ein hymweliad, braf oedd clywed am y ffordd mae arweinwyr wedi parhau i gynnal a chryfhau ymhellach y prosesau hunanwerthuso sydd wedi'u gwreiddio'n gadarn yn niwylliant yr ysgol. Gwelsom fod gan yr ysgol drefn bendant o arfarnu ei gwaith trwy weithgarwch fel arsylwi gwersi, craffu ar waith, canfod barn disgyblion ac ystyried data. Clywsom gan arweinwyr sut maent yn triongli tystiolaeth o'r gwahanol ffynonellau er mwyn cael darlun clir o gryfderau a meysydd datblygu'r ysgol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Cadarnhaol oedd clywed gan reolwyr canol am eu rhan lawn yn y prosesau gwerthuso, gan gynnig enghreifftiau penodol o sut mae newidiadau yn dilyn y gwerthusiadau hyn wedi arwain at welliant. Daeth yn amlwg fod arweinwyr ar bob lefel yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn ôl ei effaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion. O ganlyniad, mae'n galluogi arweinwyr i weithredu'n fwy strategol a chael perchnogaeth dros sicrhau gwelliant yn eu meysydd penodol.

Braf oedd clywed hefyd fod rheolwyr canol yn gwerthfawrogi cyfarfodydd gyda'u rheolwyr llinell fel cyfleoedd defnyddiol i drafod y cynlluniau gwella adran a chynnydd disgyblion. Diddorol oedd clywed am y cyfarfodydd proffesiynol rheolaidd, y 'Timau Academaidd', lle mae arweinwyr craidd ac all-graidd yn cyd-drafod safonau a deilliannau gydag uwch arweinwyr.

Gwelsom fod cyswllt rhwng canfyddiadau prosesau hunanwerthuso'r ysgol a'r prif flaenoriaethau gwelliant ysgol gyfan a maes. Clywsom fod arweinwyr yn cynnal hyfforddiant buddiol ar agweddau pwysig o ddysgu ac addysgu ac mae cyfleoedd rheolaidd i staff rannu arfer dda. Gwerthfawroga'r staff y cyfleoedd datblygu proffesiynol a'r dewis o arlwy sy'n benodol ar gyfer eu meysydd i'w datblygu.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- A yw'r meysydd i'w gwella yn ddigon manwl i alluogi athrawon i adnabod y medrau penodol y mae angen i ddisgyblion eu gwella?

## Ffocws 2 - Sut mae'r ysgol wedi mynd ati i godi safonau llafar disgyblion?

Yn ystod yr ymweliad, roedd yn ddefnyddiol clywed sut mae arweinwyr wedi rhoi pwyslais ar godi safonau llafar disgyblion ar draws yr ysgol. Diddorol oedd clywed bod y datblygiadau yn y maes wedi cael eu llywio gan ganfyddiadau aelodau'r tîm ymchwil llafaredd.

Clywsom sut mae athrawon wedi elwa o hyfforddiant y rhaglen 'Tafodau Tawe' sy'n cynnig strategaethau y gallan nhw eu defnyddio i gefnogi disgyblion i wella eu safonau llafar. Mae'r strategaethau'n cynnwys defnyddio adnoddau amrywiol fel matiau trafod i ddisgyblion strwythuro'u hymatebion llafar. Yn y gwersi yr ymwelwyd â nhw, gwelsom athrawon yn rhoi amser digonol i ddisgyblion feddwl ac i rannu syniadau gyda phartner cyn ymateb mewn trafodaeth ddosbarth. Braf hefyd oedd clywed y disgyblion yn siarad yn gadarnhaol am y datblygiad hwn a'r ffaith eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i gyfrannu ar lafar, o ganlyniad.

Roedd yn ddiddorol clywed am y ffordd mae arweinwr yn adnabod y disgyblion hynny sydd angen cymorth i gyfathrebu ar lafar gan ddarparu ymyraethau ar eu cyfer. Mae'r

ysgol wedi gweithio ar ddatblygu darllen ar goedd o fewn y dosbarth hefyd er mwyn mynd ati ymhellach i godi hyder disgyblion yn eu gwaith llafar.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- I ba raddau mae athrawon yn datblygu a chyfoethogi safonau llafar disgyblion ymhellach?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad. Rydym yn dymuno'n dda i'r ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6704078

Yn gywir

L Jones

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro